# Arolygiad o dan Adran 28
# Deddf Addysg 2005

# Adroddiad ar Ansawdd Addysg yn
# Ysgol Syr Hugh Owen
**Ffordd Bethel**
**Caernarfon**
**Gwynedd**
**LL55 1HW**

**Rhif yr Ysgol: 6614039**

**Dyddiad yr Arolygiad: 20 Hydref 2008**
**gan**

**Dr Neil Trevor Jones**
**78849**

**Dyddiad Cyhoeddi: 22 Rhagfyr 2008**
**O dan rif contract Estyn: 1200308**

**Cwestiwn Allweddol 3:**

**Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a’r gymuned ehangach?**

**Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

182. Cyfoethogir y cwricwlwm trwy gynnig ystod eang o weithgareddau allgyrsiol. Mae'r rhain yn cyfrannu'n dda i ddatblygiad personol a diwylliannol y disgyblion, ac yn cynnwys:

- ymweliadau lleol a thramor sydd yn caniatáu disgyblion a myfyrwyr i ehangu eu gorwelion ac ennill dealltwriaeth o fywydau pobl eraill.

183. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad moesol, diwylliannol a chymdeithasol ei disgyblion a'i myfyrwyr yn dda. Mae ethos yr ysgol yn cyfleu ymwybyddiaeth o werthoedd cyffredin ac mae’r awyrgylch groesawgar a chlos yn ysgogi disgyblion i gyrraedd eu potensial. Cynllunnir rhaglen ABCh cynhwysfawr i hyrwyddo a sicrhau bod disgyblion a myfyrwyr yn:

- dangos parch tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr â'r ysgol;
- medru gwahaniaethu rhwng da a drwg;
- derbyn cyfrifoldeb ac yn dangos hunanddisgyblaeth, ac
- arddangos gofal a chonsyrn am eraill.

184. Mae’r ysgol yn cydymffurfio â’r gofynion ar gyfer addoli ar y cyd. Mae’r gwasanaethau boreol, fesul blwyddyn yn y neuadd, y cyfarfodydd tiwtorial sy’n cynnwys gweithred o addoliad a chyfraniadau gan bynciau megis cerdd, celf ac addysg grefyddol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol disgyblion yn dda.